**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Mehefin 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Ms J. Hughes, A. S. Johnson, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine a P. Prendergast

## 2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) - MAI 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 488 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,500.00 | Ffi Rheoli CG Tynewydd Ch1 2018/19 |
| 468 | Sage & Co | 31.00 | Ffïoedd Cyflogres Mai 2018 |
| 489 | HSBC | 5.50 | Taliadau Banc 17/03/18 hyd at 16/04/18 |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC Ffordd Wellington - Taliad 2 o 10 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser - Taliad 2 o 12 |
| 490 | Cyngor Sir y Fflint | 4,172.56 | Cyfraniadau Pensiwn a Diffyg Ebrill 2018 |
| 491 | HMRC | 2,565.05 | Didyniadau Cyflog Ebrill 2018 |
| 492 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,052.67 | Cyflogau Staff Mai 2018 |
| 493 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Ebrill 2018 |
| 494 | Canda Copying | 321.47 | Rhentu a Chopïau Du a Gwyn |
| 495 | Canda Copying | 89.06 | Copïau Lliw |
| 496 | Sioned Graham-Cameron | 151.03 | Gwasanaethau Cyfieithu |
| | Cyfanswm Taliadau | £20,112.00 | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 3. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 497 | Cyngor Sir Ddinbych | Cytundeb TCC 2018/19 | 15,000.00 |
| 498 | Y Cyngh B Mellor | Costau teithio - Cyfarfod NMWATC | £60.75 |
| 499 | WPS Insurance | Premiwm Yswiriant – Adnewyddu 1 Mehefin 2018 | 5,220.24 |
| 500 | Sol Cinema (Paul O'Connor) | Sol Cinema Hwylddydd y Maer | 2,020.00 |
| 501 | Gunsmoke Communications | Treuliau Amrywiol a Hysbysebion Facebook ar gyfer Hwylddydd y Maer | 50.90 |
| 502 | Bernadette Williams (Miles of Smiles) | Peintio wynebau – Hwylddydd y Maer | 150.00 |
| 503 | Gunsmoke Communications | Ffi Rheoli Hwylddydd y Maer | 240.00 |
| 504 | Ambiwlans Sant Ioan | Cymorth Cyntaf Hwylddydd y Maer | 72.00 |
| 505 | JDH Business Services | Ffi Archwilio Mewnol 17/18 | 682.80 |
| 506 | Rhyl Steam Preservation Trust | Yswiriant ar gyfer Billy a Phlât Enw 2017/18 | 122.04 |
| 507 | Cyngor Sir Ddinbych | Taliad Benthyciad Canolfan Ddwr 1 o 3 2018/19 | 32,622.00 |
| 508 | Cadetiaid Môr y Rhyl | Bathodynnau Cyngor Tref y Rhyl | 32.00 |
| 509 | Bernadette Williams (Miles of Smiles) | Peintio Wynebau Seafest 28/05/18 | 150.00 |
| 510 | Rossinis | Bwffe – Sefydlu'r Maer 16eg Mai 2018 | 1,350.00 |
| 511 | Cyngor Sir Ddinbych | Llogi Neuadd y Dref y Rhyl – Sefydlu'r Maer | 135.00 |
| 512 | Russell Roberts | Consuriwr – Sefydlu'r Maer | 150.00 |
| 513 | Y Cynghorydd Win Mullen James | Lwfans y Maer 18/19 Taliad 1 o 3 | 500.00 |
| 514 | Y Cynghorydd E Chard | Lwfans Dirprwy Faer 18/19 Taliad 1 o 3 | 166.67 |
| 515 | Y Cynghorydd Win Mullen James | Lwfans Uwch Rôl 18/19 | 500.00 |
| 515 | Y Cyngorydd E Chard | Lwfans Uwch Rôl 18/19 | 500.00 |
| 516 | Y Cynghorydd J Ball | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| *516 | Y Cynghorydd J Butterfield | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| *516 | Y Cynghorydd J Chamberlain-Jones | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| 516 | Y Cynghorydd S Harris | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| *516 | Y Cynghorydd B Mellor | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| 516 | Y Cynghorydd P Prendergast | Lwfans Costau a Threuliau 18/19 | 150.00 |
| 517 | Sand in Your Eye Ltd | Gweddill y taliad am y | 1,038.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gweithdai yn Nigwyddiad Seafest 28/05/18 | |
| | | **Cyfanswm taliadau** | **£61,662.40** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James ac eithrio'r taliadau hynny wedi eu marcio gyda * gan nad oedd y Cynghorwyr Butterfield, Chamberlain-Jones a Mellor wedi dychwelyd y ffurflen yn dewis peidio â derbyn y taliadau at Glerc y Dref, ac nad oeddyn nhw eisiau derbyn y taliadau.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 4. <u>AMODAU CYFEIRIO PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gadarnhau amodau cyfeirio pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 5. <u>CHRIS RUANE AS – CYFARFOD I DRAFOD WI-FI AR STRYD FAWR Y RHYL</u>

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gwahoddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Chris Ruane AS i'r Cyngor Tref ystyried penodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfod i drafod y posibilrwydd o gael wi-fi ar Stryd Fawr y Rhyl.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *penodi'r Cynghorydd K. R. Jones i fynychu'r cyfarod yn swyddfa Chris Ruane am 10.00am ar 29ain Mehefin.*

## 6. <u>EITEM AELOD: CREDYD CYNHWYSOL</u>

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd Ball yn anffodus wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau, ond dosbarthodd gopïau o'r cyflwyniad a roddwyd i gyfarfod Grŵp Ardal y Rhyl gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych er gwybodaeth i'r aelodau.

Gwnaed y pwynt bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd Grŵp Ardal y Rhyl ar gyfer Cynghorwyr Sirol y Rhyl yn unig, ac y byddai'n fuddiol i Gynghorwyr Tref y Rhyl gael eu gwahodd i'w mynychu ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r Rhyl.

Cytunodd y cynghorwyr tref yr hoffent hwythau dderbyn y cyflwyniad gan swyddogion y Cyngor Sir.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod Clerc y Dref yn gwahodd swyddogion y Cyngor Sir i roddi'r un cyflwyniad i'r Cyngor Tref yn union cyn un o'r cyfarfodydd a drefnwyd.*

## 7. <u>EITEM AELOD: GRANT ARIANNU SWYDDOG CYSWLLT YSGOLION YR HEDDLU</u>

Esboniodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ei bod wedi ei chysylltu fel Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau ar gyfer llythyr i'w anfon at Lywodraeth Cymru yn gwrthwynebu diddymu Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, fel yr oedd Ann Jones AC eisoes wedi ei wneud.

Dywedodd y Cynghorydd Mullen-James bod y rhaglen yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr fel cyflwyniad cadarnhaol a dull o feithrin perthynas rhwng myfyrwyr a'r heddlu.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu ac anfon llythyr.*

**8. EITEM ER GWYBODAETH: DIGWYDDIAD COFFA RHYFEL BYD CYNTAF, GWLAD BELG**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Mr Antoni Vitti (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r Cyngor Tref sut byddai'r Rhyl yn cynrychioli Cymru mewn dau ddigwyddiad coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngwlad Belg eleni.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth gyda diolch a chyfarwyddo Clerc y Dref i ysgrifennu llythyr o ddiolch a llongyfarchiadau i Mr Vitti ar ei ymdrechion parhaus yn hyn o beth.*

**9. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

**10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**11. EITEM GYFRINACHOL GAN AELOD: EIDDO GWAG AR STRYD FAWR Y RHYL**

Dywedodd y Cadeirydd, oherwydd absenoldeb y Cynghorydd A. S. Johnson, y byddai'r eitem yn cael ei gohirio hyd at gyfarfod yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem.*

**12. LLOCHESI BWS**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl i Gyngor Sir Ddinbych gysylltu mewn perthynas ag ailwampio a throsglwyddiad arfaethedig nifer o lochesi bws y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ymateb i'r Cyngor Sir:*

- *(a) yn esbonio, er bod y cynnig yn un da, bod cyllidebau'r Cyngor Tref eisoes wedi eu hymrwymo, mai dim ond ychydig iawn o le oedd yna i symud oherwydd yr ymrwymiad arwyddocaol o arian i Gyngor Sir Ddinbych tuag at SC2;*
- *(b) bod y Cyngor yn arolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.*

## 13. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Ymhellach i gofnod gofnod rhif 22 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2017, gofynnodd Clerc y Dref ei fod ef a'r Maer yn cael eu cymeradwyo i lofnodi'r cytundeb ffurfiol ar gyfer darparu gwasanaethau Teledu Cylch Cyfyng ar gyfer 2018/19.

Dywedodd cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y bartneriaeth, y Cynghorydd B. Mellor, bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda a bod gwell gwasanaeth nawr a gweinydd newydd ac y byddai'r gweithredwyr yn treulio pythefnos yma yn y Rhyl i gael gwell dealltwriaeth o'r ddaearyddiaeth leol a'r mannau lle'r oedd y mwyaf o ddigwyddiadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo bod y Maer a Chlerc y Dref yn llofnodi'r cytundeb ar ran y Cyngor Tref.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater brys.*

## 14. GWEITHRED ILDIO AR GYFER Y SWYDDFEYDD DINESIG

Gofynnodd Clerc y Dref i'r pwyllgor gymeradwyo'n ffurfiol lofnodi'r ddogfen gan y Maer.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo bod y Maer yn llofnodi'r ddogfen ar ran y Cyngor Tref.*

## 15. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref, gan nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru, ac nad oedd y Cyngor Tref erioed wedi derbyn cais o'r fath yn yr holl amser y mae'r eitem wedi bod ar ei raglenni, ei fod yn awgrymu ei bod yn cael ei dileu ar unwaith.

***PENDERFYNWYD*** *bod y pwyllgor yn cytuno bod yr eitem sefydlog yn cael ei dileu oddi ar holl raglenni yn y dyfodol.*

## 16. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:…………….……..

Dyddiad: ……………………..